POLISI DERBYNIADAU

YSGOL SANT PAUL A GYNORTHWYIR YN WIRFODDOL, IS-COED

Cyflwyniad

Y corff llywodraethol sy'n gyfrifol am dderbyniadau i Ysgol Sant Paul.
Yn ôl y gyfraith, mae gan rieni hawl i fynegi dewis o ran ysgol i'w plant a dyletswydd y corff llywodraethol a'r AALl yw cydymffurfio â'r dewis hwnnw cyn belled â nad yw cydymffurfio â'r dewis hwnnw'n niweidio'r defnydd effeithiol o adnoddau.

Bydd yr ysgol yn derbyn disgyblion hyd at ei nifer safonol gytunedig (11 ar hyn o bryd). Os bydd nifer y ceisiadau'n fwy na'r nifer hon a bod yr ysgol yn derbyn gormod o geisiadau, bydd y corff llywodraethol yn defnyddio rhai neu bob un o'r meini prawf yn y drefn a restrir isod:-

Meini prawf derbyn / gormod o geisiadau

1. (a) Plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol eisoes.
   (b) Plant sydd wedi bod â brawd neu chwaer yn yr ysgol eisoes.
2. Plant sy'n byw o fewn 3 milltir i'r ysgol.
3. Plant y mae eu rhieni'n gymunwyr rheolaidd yn Eglwys Sant Paul, Is-coed.
4. Plant y mae eu rhieni'n gymunwyr rheolaidd yn un o eglwysi eraill yr Eglwys yng Nghymru.
5. Plant y mae eu rhieni'n mynychu eglwys Gristnogol ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf uchod.
6. Plant y mae eu rhieni'n arfer crefydd arall.
7. Plant eraill.

Os bydd mwy o geisiadau'n bodloni'r meini prawf uchod nag sydd o leoedd yn yr ysgol, rhoddir blaenoriaeth i'r rheiny sy'n byw agosaf at yr ysgol.

Diffiniadau a dehongliadau

Bydd agosrwydd at yr ysgol yn cael ei fesur gan ddefnyddio'r llwybr cerdded agosaf.

Mae cymunwyr rheolaidd yn Eglwys Sant Paul neu unrhyw un o eglwysi eraill yr Eglwys yng Nghymru'n golygu unigolyn sydd wedi derbyn y cymun yn unol â defnydd yr Eglwys yng Nghymru neu eglwys arall mewn perthynas â'r Eglwys yng Nghymru o leiaf tair gwaith yn ystod y 12 mis cyn dyddiad y cais. Bydd angen tystiolaeth ategol gan Beriglor y plwyf.

Mae cyfeiriadau at rieni'n cynnwys naill ai'r ddau riant neu riant unigol, a phan fydd un o'r ddau riant yn unig yn bodloni'r meini prawf, bydd y cais yn cael ei drin yn gyfartal â cheisiadau lle mae'r ddau riant wedi bodloni'r meini prawf. Mae'r ymadrodd "rhieni" yn cynnwys gwarcheidwaid cyfreithiol.

Apeliadau

Gallai rhieni sy'n anfodlon â phenderfyniad y corff llywodraethol i beidio â derbyn plentyn apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw. Dylid apelio'n ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod o dderbyn y penderfyniad, at:
Clerc y Corff Llywodraethol,
Ysgol Sant Paul, Is-coed, Wrecsam, LL13 9RL.